**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr ABERAERON a gynhaliwyd o bell trwy gynhadledd fideo ar nos Iau, 16 Mawrth 2023**

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion:** Y Cynghorydd Keith Henson (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Elizabeth Evans, Matthew Vaux a Carl Worrall

**Yn cynrychioli Cyngor Tref Aberaeron:**

**Yn cynrychioli Defnyddwyr yr Harbwr:**

**Swyddogion a oedd yn Bresennol:** Gerwyn Jones, Owen Morgan, Katy Spain a Nia Jones (cofnodion)

**Defnyddwyr Eraill yr Harbwr**: Nicholas Allen, Martin Beazer, Nigel Davies, Tim Davies Julian Driver, Alun Evans, Huw Evans, John Evans, Jan Foy, Lindsay Geddes, Lowri Goss, Phil Harries, Tim Jeremy, Anthony Hartwell-Jones, Steve Holt, Elizabeth Jones, Jonathan Price Jones, Martin Wynne Jones, Vernon Jones, Thomas Lawson, Adrian Morris, David Nicholson, Simon Raw Rees, John Reed, Carl Rich, N J Robertson, Nick Sawyer, Chris Seal, Martin Seal, Harry Simpson, Steve Webb, Anthony Taylor, Janet Turner, Martin Vincent, Katy Willett a Richard Whitfield,

(5.30pm – 6.25pm)

1. **Ymddiheuriadau**
   Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau

2. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2022**
   Cytunwyd ail-ddosbarthu Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2022, er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor eu hadolygu.

   **Materion yn Codi**
   Nododd Phil Davies ei fod wedi gofyn cwestiwn yn ystod y cyfarfod blaenorol ynghylch pryd y byddai'r gwaith yn cychwyn yn yr harbwr, nad oedd wedi cael ei gynnwys yn y cofnodion blaenorol. Nodwyd nad oedd y wybodaeth ar gael ar y pryd.

**3. Diweddariad am Wasanaethau Harbwr**
Gan nodi bod 4ydd Rhifyn Cylchlythyr 'Calm Waters' wedi cael ei ddosbarthu yn gynharach heddiw, sydd ynghlwm yn gyflawn, nododd Owen Morgan, Rheolwr Harbyrau Ceredigion, bod gwybodaeth ynddo ynghylch y diweddariad.

**4. Materion a Godwyd gan Ddefnyddwyr yr Harbwr**
Gofynnwyd y cwestiynau canlynol cyn y cyfarfod:

| | Cwestiwn | Ateb |
|---|---|---|
| 1 | Mae gen i angorfa yn Aberaeron, ac mae wedi bod gennyf ers dros 25 mlynedd, yn wir, yr un angorfa, sef H1. Hoffwn symud yn agosach i'r tu blaen a gwelwyd rhai mannau yno llynedd na chawsant eu defnyddio o gwbl. Fy nghwestiwn yw a oes modd i mi symud angorfa os gwelwch yn dda gan fy mod yn defnyddio fy nghwch yn rheolaidd | Mae ceisiadau unigol i newid angorfa yn fater/cais gweithredol ac mae modd eu hystyried ar unrhyw adeg, yn unol â Pholisi Rheoli Harbyrau Ceredigion, trwy gyfrwng y ffordd arferol o gysylltu â thîm yr Harbyrau (wyneb yn wyneb pan fyddant yn y swyddfeydd, neu trwy Clic). Byddwn yn cael cyswllt uniongyrchol gyda Defnyddiwr yr Harbwr am y mater |

| | | |
|---|---|---|
| | trwy gydol y tymor a byddai bod yn y tu blaen yn cynnig hyd at awr ychwanegol i mi pan fo'r llanw yn dda.  Hwn yw fy nghwestiwn i'r cyfarfod, diolch | hwn. |
| 2 | Gallai'r gwaith o adnewyddu'r harbwr effeithio ar ddefnyddwyr yr harbwr pan gaiff ei gyflawni, gyda chyfyngiadau mynediad posibl ar y tir ac ar y dŵr, yn enwedig yn yr ardaloedd gerllaw pier y Gogledd a phier y De, ac wrth gwrs, cyflawnir cryn dipyn o'r gwaith pan fo'r dŵr yn isel, ond efallai y bydd angen gadael sgaffaldiau a darnau adeiladu eraill yn eu lle wrth fynedfa yr harbwr pan fo'r dŵr yn uchel, a allai beri peryglon mordwyo, a oes cynlluniau i hysbysu defnyddwyr yr harbwr o unrhyw rai a phryd y gallai peryglon mordwyo posibl fod yn bresennol.<br>Yn ychwanegol i hyn, a oes dyddiadau wedi cael eu cadarnhau ar gyfer yr adeg pan gyflawnir y gwaith hwn y mae cryn angen ei wneud?<br>Diolch i chi ymlaen llaw am gynnwys yr eitem hon ar Agenda Cyfarfod Defnyddwyr yr Harbwr a gynhelir ar 16 Mawrth. | Gwneir pob ymdrech i leihau a lliniaru effeithiau'r Gwaith Lliniaru Llifogydd yn Aberaeron ar yr holl randdeiliaid, sy'n cynnwys defnyddwyr yr harbwr.  Mae Rheolwr yr Harbwr yn cael cyswllt parhaus gyda swyddogion sy'n arwain y prosiect a rhoddir diweddariadau rheolaidd i Ddefnyddwyr yr Harbwr.<br>Bydd hyn yn cynnwys Hysbysiad Lleol i Forwyr yn cael ei gyhoeddi neu gyswllt uniongyrchol pan fo hynny'n briodol, yn ogystal â diweddariadau yn Calm Waters ac yn ystod cyfarfodydd Defnyddwyr yr Harbwr.<br>Yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol Defnyddwyr yr Harbwr, y byddant yn parhau i gael eu trefnu dan drefniant rhith, mae gan randdeiliaid amrywiaeth o ffyrdd o ymgysylltu â Thîm yr Harbyrau, sy'n cynnwys wyneb yn wyneb yn y swyddfeydd, dros Clic ac yn ystod 2023, cyfres newydd y cymorthfeydd. |
| 3 | Disgrifiad byr gan CSC o rôl y Cynorthwyydd Harbwr.  O'n safbwynt ni, mae'n ymddangos fel swydd mewn swyddfa heb fawr ddim neu ddim gweithgarwch gwneud penderfyniadau. | Rheolwr Harbwr (Amser Llawn – Parhaol).<br><br>Arweinydd Gwaith Harbwr (Amser Llawn – Parhaol).<br><br>2 Gynorthwyydd Harbwr (Tymhorol: Ebrill – Medi).<br>Cyhoeddir hysbysebion am swyddi gwag yr Arweinydd Gwaith Harbwr a'r Cynorthwyydd Harbwr ar wefan y Cyngor yn fuan.  Anogir unrhyw un y mae ganddynt ddiddordeb mewn gweithio yn y Gwasanaeth Harbyrau i ymgeisio.  Mae Disgrifiadau Swydd a Manylebau Person ynghlwm.<br>Mae lefel y gweithgarwch gwneud penderfyniadau yn gysylltiedig â Gradd a chyfrifoldebau y swyddi, y cynhaliwyd ymarfer gwerthuso swyddi ohonynt, fel sydd wastad wedi digwydd. |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | Disgrifiad gan CSC o'r dull er mwyn casglu ffioedd lansiad llithrfa gan y perchnogion cychod hynny nad oes ganddynt docyn tymor. | Yn hanesyddol, bu'r incwm a sicrhawyd gan ffioedd lansio dyddiol yn ein harbyrau yn isel iawn, ac mae hyn wedi cynnwys adegau pan oedd y tîm Harbyrau yn cynnwys nifer lawn y staff. Felly, ein dull gweithredu a farnwyd yn gymesur ac yn briodol yng nghyd-destun y gweithrediad cyffredinol, yw y caiff swyddfa'r harbwr yn Aberaeron ei staffio ar ran fwyaf y diwrnodau yn ystod prif dymor yr haf.<br><br>Gallwn ystyried defnyddio mesuryddion cardiau ond byddai angen i'r incwm posibl y byddai modd ei sicrhau gyfiawnhau'r gwariant. |

Gofynnwyd cwestiynau atodol yn ystod y cyfarfod:

| | | |
|---|---|---|
| 5 | *Cwestiwn atodol i gwestiwn 2 uchod:*<br>A yw'r gwaith adnewyddu ar yr Harbwr yn golygu y byddai angen i unrhyw un symud angorfa? | Os bydd angen i hyn ddigwydd, byddwn yn sicrhau ein bod yn gosod pobl yn yr angorfa fwyaf priodol er mwyn sicrhau na fyddant yn cael eu heffeithio |
| 6 | *Cwestiwn atodol i gwestiwn 4 uchod:*<br>Yn hanesyddol, ni fyddwch yn casglu llawer o arian os na fydd yr Awdurdod Harbwr yn gallu cymryd arian, sieciau neu gardiau, a sut byddwch yn casglu'r arian os na fydd CLC yn gweithio gyda'r hwyr neu ar benwythnosau. Byddai modd cynyddu'r incwm gan y rhai sy'n teithio yma am y dydd ac ymwelwyr yn sylweddol | Os bydd yn digwydd yn ystod y penwythnos, byddwn yn cymryd manylion ac yn cymryd camau dilynol yn ystod yr wythnos. Bydd nifer fawr o bobl wedi cysylltu a thalu ffioedd ymlaen llaw |
| 7 | A archwiliwyd yr yswiriant ar gyfer taro cychod? | Gofynnir am hwn ymlaen llaw |
| 8 | A oes cofnod yn cael ei gadw o'r ffioedd angorfa a godir ac a fyddai modd rhannu'r wybodaeth hon gyda ni? | Oes, ceir cofnod ymwelwyr. Ni allwn rannu gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolion oherwydd GDPR, fodd bynnag, mae cyfrifon archwiliedig yr harbwr ar gael i'r cyhoedd. Mae modd ychwanegu hwn fel eitem ar yr agenda yn y dyfodol. |
| 9 | Rydych chi'n nodi eich bod yn archwilio'r yswiriant ar gyfer ymwelwyr, fodd bynnag, nid ydych yn edrych ar ein hyswiriant ni, felly sut allwn ni deimlo'n hyderus bod y gwaith hwn yn cael ei wneud? | Mae'n ofyniad yn y Polisi bod gennych chi yswiriant, ac mae gofyn i bob deiliad angorfa lenwi'r dogfennau perthnasol a llofnodi'r datganiad sy'n cadarnhau bod gennych chi yswiriant bob blwyddyn.<br><br>**Nodyn ar ôl y Cyfarfod** |

| | | |
|---|---|---|
| | | Fel yr esboniwyd yn flaenorol, roedd diffyg sylfaenol yn y broses o archwilio dogfennau yswiriant untro bob blwyddyn gan bod polisïau yswiriant yn dod i ben neu mae modd eu terfynu ar unrhyw adeg.  Mae'r cyfrifoldeb ar y deiliaid angorfa i sicrhau bod ganddynt yswiriant digonol a chyfredol bob amser, sy'n ofyniad a nodir yn y Ffurflen Cais am Angorfa flynyddol a lofnodir. |
| 10 | A yw'r cadwyni yn cael eu cynnal a'u cadw? | Bydd y gwaith cynnal a chadw cadwyni yn cychwyn ddydd Llun nesaf (20/03/2023).<br>Dyfarnwyd contract ar gyfer y gwaith er mwyn eu harchwilio a'u trwsio yn ôl y gofyn. |
| 11 | *Cwestiynau sy'n ymwneud â ffioedd angorfa:*<br><br>Nid yw cyfarfod 45 munud yn ddigon hir a dylai fod am gyfnod hwy er mwyn trafod pethau fel pam bod ein ffioedd wedi codi 30%.  Beth arall sydd wedi codi 30%?<br><br>Byddai o ddefnydd cael rhesymeg dros y codiadau, gan gynnwys y costau o redeg yr harbwr<br><br>Dylai manylion y codiadau i'r ffioedd fod wedi cael eu dosbarthu i berchnogion cychod ymlaen llaw, mae'n warthus cyflwyno'r rhain yn annisgwyl<br>Po fwyaf yw'r ffioedd angorfa, y mwyaf y mae'n edrych fel pe baech yn dymuno ei roi i gwmni preifat<br><br>Faint ohonoch chi sy'n berchnogion cychod ac sy'n deall ein sefyllfa<br><br><br>Sut allwch chi gymharu'r codiad mewn treth gyngor gyda'r codiad mewn ffioedd angorfa?  Nid ydw i wedi gweld tâl mesurydd rhedeg, ond credaf ei fod bellach yn £68 a thâl gweinyddol o £37.  A oes modd i chi egluro os gwelwch yn dda?<br><br>A oes modd i mi fynd ar-lein i weld y | <br><br>Trafodwyd y gyllideb yn ystod y cyfarfod Craffu a chan y Cabinet hefyd, ac mae'r wybodaeth ar gael ar-lein.  Yn anffodus, roedd setliad Llywodraeth Cymru a phwysau uwch er mwyn sicrhau gwasanaethau gofal cymdeithasol ac ati, a'r ddyletswydd statudol i fantoli'r cyfrifon yn golygu codiad arwyddocaol i'r Dreth Gyngor a'r angen i godi incymau, gan geisio sicrhau proses deg ar yr un pryd.<br>Mae'r codiad o 7.3% i'r Dreth Gyngor yn cynnwys codiad o 1.3% i ardoll y Gwasanaeth Tân, a bu'n rhaid i awdurdodau eraill wneud codiadau hefyd.<br><br>**Nodyn ar ôl y Cyfarfod**<br>Mae'r sector cyhoeddus, a llywodraeth leol yn arbennig, wedi dioddef cyfnod parhaus ac estynedig o sialensiau ariannol a chyni, ac fel pawb arall, mae'r sefyllfa o ran chwyddiant yn effeithio ar y Cyngor Sir.<br>Yn ôl y gyfraith, mae rheidrwydd ar y Cyngor i gyflwyno cyllideb flynyddol gytbwys a cheir nifer o ystyriaethau a ffactorau dylanwadol sy'n ymwneud â hyn.  Mae cynigion sy'n ymwneud â thaliadau a ffioedd gwasanaethau penodol yn destun craffu/trafodaeth wleidyddol, prosesau trosolwg a chymeradwyo a gwnaethpwyd y |

| | | |
|---|---|---|
| | taliadau?<br><br>Pa wasanaethau eraill sydd wedi codi 33%<br><br>Pe byddai ffioedd yn codi 10%, gallem dderbyn hynny, ond bydd 33% yn golygu y bydd pobl yn rhoi'r gorau iddi, a bydd yr incwm gan yr harbyrau yn lleihau | penderfyniad eleni i gyfyngu ar y codiad i'r Dreth Gyngor i 7.3% ar gyfer 2023/24, sydd lawer yn is na'r gyfradd chwyddiant gyffredinol.<br>Ar y sail hon, heb leihau gwasanaethau mewn ffordd arwyddocaol, y mae nifer ohonynt yn ofynion statudol, mae angen ystyried ffyrdd eraill o leihau'r diffyg. Un ffordd o wneud hyn yw ystyried codiadau cymesur mewn ffioedd a thaliadau. Bydd y cynigion ar gyfer y rhain yn cynnwys sawl ystyriaeth, sy'n cynnwys cymariaethau gyda'r un cynnig neu gynnig tebyg yn lleol, y taliadau a'r ffioedd sylfaenol a'r elastigrwydd o ran y galw. Mae gan y Cyngor Bolisi Rheoli Incwm ac Adfer Cost Gwasanaeth.<br>Wrth gwrs, mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth yr hawl i'w barn fel cwsmeriaid cynigion dewisol, ac wrth gwrs, eu dewis nhw yw penderfynu manteisio ar y rhain neu beidio.<br>Roedd y cynigion ar gael i'r cyhoedd fel rhan o bapurau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus, y Cabinet a'r Cyngor. Mae modd pori trwy'r rhain trwy droi at:<br>Pori trwy Gyfarfodydd Cyngor Sir Ceredigion, 2023<br><br>Mae modd gweld y ffioedd a'r taliadau ar wefan y Cyngor:<br>www.ceredigion.gov.uk |
| 12 | Rydym yn gwerthfawrogi bod hwn yn gyfnod ariannol anodd, ond pam y gofynnir i ddefnyddwyr yr harbwr ysgwyddo rhan anghymesur o hyn. A fyddech chi'n fodlon ystyried sefydlu gweithgor i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn canfod ffordd ymlaen y gall pawb gytuno arni? Mae canlyn y polisi presennol yn prisio pobl allan o'i ddefnyddio, gan adleisio'r argyfwng tai presennol | Nododd y Cynghorydd Elizabeth Evans ei bod hi'n hoffi'r syniad o gael gweithgor a fyddai'n cynnwys cynrychiolwyr o blith defnyddwyr yr harbwr a'r Clwb Hwylio, yn ychwanegol i'r cyfarfodydd mewn arddull cymhorthfa. Cytunwyd y byddai’r Cynghorydd Elizabeth Evans yn trafod hyn gyda’r Cynghorydd Keith Henson ac Owen Morgan. |
| 13 | Ni wnaethpwyd unrhyw waith ar yr harbwr yn ystod y 6 – 7 mlynedd ddiwethaf. Os byddwch yn parhau, bydd yr holl gychod lleol yn diflannu, a | Caiff yr harbwr ei garthu bob blwyddyn a chyflawnir gwaith cynnal a chadw wythnos nesaf, yn ogystal â gwaith ail-bwyntio a gyflawnwyd yn 2021, ynghyd |

| | | |
|---|---|---|
| | byddwch yn cael pobl o ardaloedd eraill yn aros ar gychod | â'r cynllun amddiffyn arfordirol sydd ar fin cychwyn, a fydd yn costio sawl miliwn.<br><br>A fyddech gystal â rhoi gwybod i ni am unrhyw waith heb ei gyflawni er mwyn i ni allu ystyried hyn |
| 14 | Mae'r polyn ar y lithrfa ar goll, sy'n ei gwneud yn anodd gwybod ble mae'r ymyl. Codwyd hyn yn ystod y cyfarfod ym mis Hydref, ond nid yw wedi cael ei adrodd o hyd | Difrodwyd y polyn gan gerbyd, a byddwn yn ystyried ei ailosod. |
| 15 | Mae'r harbwr yn fwy cul oherwydd y caiff mwd ei adael ar y traeth, sy'n dod yn ôl cyn gynted ag y bydd llifogydd yn yr afon. Ni fyddwn yn galw hwn yn garthu, ond ailddosbarthu, ac mae gennyf dystiolaeth ar ffurf ffotograffau sy'n dangos ei fod wedi cael ei ailddosbarthu wrth bob pen. A yw hwn i fod gerllaw y bont? | Os ydych chi'n holi am y gwaith o ailosod proffil yr harbwr, byddwn yn cynnig ei fod yn mynd ar draeth y De i gyd flwyddyn nesaf. |
| 16 | Mae nifer fawr o blant yn mynd i hel crancod ger Pwll Cam yn yr Haf, fodd bynnag, mae tua 4 – 5 troedfedd o fwd yno, ac rydw i'n gofidio os bydd plentyn yn cwympo i mewn, na fyddant yn gallu dod allan. | Bydd y cynllun amddiffyn arfordirol yn lleihau'r fynedfa i'r ardal hon, a ddylai olchi'r mwd allan.<br><br>**Nodyn ar ôl y Cyfarfod**<br>Harbwr yw harbwr ac mae'n anochel y bydd risgiau ym mhob harbwr, a byddant yn aml yn cynnwys peryglon amlwg fel disgyniadau serth a dŵr.<br><br>Nid oes ffordd ymarferol o waredu'r holl beryglon a'r risgiau posibl.<br><br>Mae gennym asesiadau risg cyffredinol yn eu lle ar gyfer yr harbyrau, y maent yn destun gwaith adolygu. Gweithredir ymyriadau a mesurau lliniaru rhesymol ac ymarferol pan fo modd a phan fo hynny'n briodol.<br><br>**Nodyn ar ôl y Cyfarfod**<br>Cyflawnwyd gwaith carthu trwy chwistrellu dŵr ym Mhwll Cam yn hwyr yn 2020. Cost gyfan gwbl y gwaith hwn (gan gynnwys asesu a gwaith ffisegol) oedd £28,000<br><br>Bernir nad yw'r gwaith wedi cynnig llawer o fudd dros y tymor hir, felly ni chaiff ei gyflawni eto. |

| | | |
|---|---|---|
| 17 | Cefais ddamwain ar y lithrfa ym mis Gorffennaf y llynedd, ac anfonais neges e-bost atoch. Fodd bynnag, ni chefais ateb. Pa ddarpariaeth sydd ar gyfer Llyfr Damweiniau | Rydw i [Owen Morgan] yn ymddiheuro os nad wyf wedi ymateb, byddaf yn bwrw golwg dros fy negeseuon e-bost.<br><br>**Nodyn ar ôl y Cyfarfod**<br>Mae gan y Cyngor system gorfforaethol er mwyn adrodd am ddigwyddiadau. Dylid adrodd am bob digwyddiad, damwain ac achos y bu ond y dim iddo ddigwydd, i'r Tîm Harbyrau yn yr achos hwn, er mwyn gallu cofnodi'r rhain ac ymchwilio iddynt yn unol â'r system a'r protocolau corfforaethol. Byddai'n amhriodol peryglu, dyblygu neu wanhau y system sydd mewn grym gyda chofnodion digwyddiadau/damweiniau ar ffurf copi caled ym mhob harbwr. |
| 18 | Mae drws Swyddfa'r Harbwr wastad ar glo | Byddaf [Owen Morgan] yn cyfleu'r neges hon i'r Cynorthwywyr, gan ofyn iddynt gadw'r drws ar agor bob amser, fodd bynnag, os byddwch yn curo, byddwn wastad yn ateb. Argymhellodd y Cynghorydd Elizabeth Evans y dylid nodi manylion yr oriau agor ar y drysau.<br><br>**Nodyn ar ôl y Cyfarfod**<br>Bwriadwn sicrhau presenoldeb rheolaidd a pharhaus yn y tri harbwr ar ran fwyaf y diwrnodau, rhwng 01 Ebrill a 30 Medi.<br><br>Cynhelir presenoldeb llai, ond rheolaidd, yn y tri harbwr yn ystod y cyfnod rhwng 01 Hydref a 31 Mawrth.<br><br>Fel arfer, bydd modd cynnal cyswllt gyda thîm yr harbyrau ar unrhyw adeg trwy Clic. |

**Nodyn ar ôl y Cyfarfod**
Mae'r rhestr aros am angorfeydd ar gyfer pob harbwr ym mis Mawrth 2023, a olygwyd, ynghlwm. Mae rhif pob cofnod yn adlewyrchu pryd y gwnaethpwyd y trafodiad. Mae'r broses o neilltuo angorfeydd fel y nodir ac yn unol â Pholisi Rheoli Harbyrau Ceredigion.

Diolchodd Cadeirydd y cyfarfod i bawb am y sylwadau, gan nodi bod sawl peth y mae angen i'r gwasanaeth ymateb iddynt.

**5. Unrhyw fater arall y bydd y Cadeirydd yn penderfynu bod gofyn i'r Pwyllgor roi ei sylw iddo ar frys**

Ni chodwyd unrhyw eitemau.